Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**GRANT CYFALAF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (VAWDASV)**

**Canllawiau i Ymgeiswyr am y Grant**

**2025-26**

## Y cefndir:

Mae Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae hyn yn cynnwys cyllid i sefydliadau statudol a rhai gwirfoddol wedi ei gyfeirio tuag at gyflawni amcanion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") fel y nodir yn Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU . Gwahoddir ceisiadau am gynigion ar gyfer prosiectau am gyfran o gyllideb ariannu Grant Cyfalaf VAWDASV ar gyfer 2025-26 (yn unig).

Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £50,000 a grantiau mwy gwerth hyd at £350,000.

**Dylech chi ddarllen y canllawiau canlynol a'r Cwestiynau Cyffredin yn ofalus cyn ichi lenwi'r ffurflenni cais, gan gyfeirio atynt wrth ichi wneud hynny.**

## Pwy all wneud cais?

- **Sefydliadau trydydd sector -** sefydliad o'r sector gwirfoddol. Er enghraifft, grŵp cymunedol, elusen gofrestredig neu fenter gymdeithasol.
- **Awdurdodau lleol**
- **Byrddau Iechyd**
- **Corff cyhoeddus arall**

**Ni** fyddwn yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau a busnesau o'r sector preifat.

## Nodau'r grant:

Rhaid i gysyniad y prosiect cyfalaf gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn **Strategaeth Genedlaethol 2022 - 2026** sy'n amlinellu'r **chwe phrif amcan** fel a ganlyn:-

*Amcan 1*
Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.

*Amcan 2*
Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.

*Amcan 3*
Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.

*Amcan 4*
Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal trais a cham-drin.

*Amcan 5*
Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

*Amcan 6*
Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar anghenion yn ogystal â chryfderau ac sy'n ymatebol ledled Cymru.
Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015: Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol er mwyn gwella trefniadau ar gyfer amddiffyn a chefnogi dioddefwyr

### Rheoli cymorthdaliadau

Rhaid ichi sicrhau bod defnyddio'r Cyllid yn gydnaws â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a chyfeirnod cynllun SC10869 a'r cytundebau cymwys a gynhwysir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.
Gweler y ddolen isod i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Cymorth Gwladwriaethol:

Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn unol â chyfeirnod cynllun.

Ceir manylion llawn y Cynllun yma:

GOV.UK - Public user search subsidy scheme details page (beis.gov.uk)

## Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei ariannu:

Mae'r grant VAWDASV yn gynllun grant cyfalaf yn unig. Ystyr **cyfalaf** yw prynu asedau, gwaith corfforol, a ffioedd proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith corfforol (gan gynnwys treth ar werth na ellir ei hadfer). Mae grantiau ar gael ar gyfer y mathau canlynol o brosiectau:-

1. ***Prynu eiddo***
   - Caffael unedau talu ychwanegol yn y gymuned a/neu lety symud ymlaen a all ddiwallu anghenion teuluoedd yn well lle na fydd llety brys ar ffurf lloches yn briodol.
   - Caffael ased i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a fydd yn darparu budd am fwy na 5–10 mlynedd.

2. ***Prosiectau adnewyddu***
   - Gwaith adnewyddu ac addasu i sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol, yn hygyrch i bawb ac yn diwallu anghenion y boblogaeth.
   - Gwaith adnewyddu i loches bresennol a gwaith uwchraddio i ddarpariaeth symud ymlaen.
   - Gwaith adnewyddu i swyddfeydd a ddefnyddir gan ddefnyddwyr gwasanaeth
   - Gwasanaethau 'siop un stop' (mynd i'r afael ag achosion o gyflawni trais a chefnogi dioddefwyr)
   - Diweddaru'r mannau presennol, er enghraifft, mannau sy'n addas i blant.

3. ***Prosiectau gwella diogelwch***
   - Eitemau gwella diogelwch hanfodol ar gyfer dioddefwyr risg uchel.

4. ***Gwella ac uwchraddio mannau ac offer ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth***
   - Gwella mynediad a mannau i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn darparu mynediad cyfartal.
   - Offer digidol a TG os ydynt yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth.

Ni ellir defnyddio’r cyllid ar gyfer:

- Costau staff a chostau gweithredu eraill
- Ffioedd proffesiynol
- Lesoedd
- Eitemau y bernir eu bod yn gyfrifoldeb cyflogwyr
- Deunyddiau hyrwyddo neu hysbysebu fel beiros, posteri, bandiau garddwrn
- Prynu dodrefn ac offer bach newydd oherwydd traul bob dydd arferol
- TAW ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW (dylid datgan statws cofrestru TAW yn y cais).

**Rhaid i'r prosiect cyfalaf gael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2025-26**

## Y broses ymgeisio:

Mae dau fath o ffurflen gais ar gael:

- Grantiau bach hyd at £50,000
- Grantiau mwy gwerth hyd at £350,000.

Gan fod y cyllid sydd ar gael yn gyfyngedig, bydd grantiau'n cael eu hasesu yn unol â'r broses isod a byddwn yn gofyn am farn eich rhanbarth i flaenoriaethu prosiectau sy'n cwrdd orau â'r chwe amcan allweddol a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol. Er mwyn cyflawni hyn, byddai'n arfer da trafod eich cais gyda'ch Cynghorydd Rhanbarthol cyn cyflwyno eich cais. Wrth ddychwelyd eich cais, **RHAID** i chi hefyd anfon copi at eich Cynghorydd Rhanbarthol i'w ystyried.

Mae rhagor o fanylion ynghylch pob categori isod. Ym mhob achos, bydd y ffurflen gais yn profi cymhwysedd y sefydliad ac yn sicrhau bod y cynigion yn cyd-fynd â meini prawf y Grant VAWDASV a restrir uchod.

Mae'r ffurflenni yn caniatáu i ymgeiswyr ddweud wrthym am y prosiect a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni. Cadwch at y cyfyngiadau o ran nifer y geiriau, gan y bydd hyn yn ein helpu i brosesu ceisiadau cyn gynted â phosibl.

O 2025/26 bydd y rhaglen yn cynnig taliad ymlaen llaw i sefydliadau'r trydydd sector YN UNIG sy'n bodloni meini prawf angen ariannol Llywodraeth Cymru. Os ydych yn sefydliad trydydd sector ac yn dymuno i'ch cais gael ei ystyried i'w dalu ymlaen llaw, atebwch ie i'r cwestiwn ar y ffurflen gais. Os bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo ar gyfer cyllid, bydd swyddogion mewn cysylltiad fel y gall yr asesiad o angen ariannol ddechrau.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Anogir ceisiadau a dulliau a cydweithredol ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau.

- **Ceisiadau am grantiau bach gwerth hyd at £50,000**

Mae'r ffurflen gais ar gyfer y grant o dan £50,000 wedi'i chynllunio i fod yn gymharol syml. Rydym am alluogi pob math o sefydliadau, beth bynnag fo'u capasiti, i gael mynediad at y lefel hon o gyllid.

Ein nod yw darparu ymateb i bob cais o dan £50,000 o fewn 90 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl a bydd yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law. **Nid ydym yn disgwyl cael digon o gyllid i dalu am yr holl geisiadau y byddai modd eu hariannu.** Sicrhewch eich bod yn dilyn y canllawiau mewn perthynas â'r dyfyniadau/prisiadau sydd i'w darparu. Bydd methu â darparu'r rhain yn golygu bod eich cais yn annilys.

Dylech wybod nad yw gwyriad o'ch cynnig gwreiddiol yn ystod y flwyddyn ariannol yn debygol o gael ei gytuno.

- **Ceisiadau am grantiau mwy gwerth hyd at £350,000, isafswm o £50,001**

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer y grantiau mwy yn gofyn am gais llawn, gan fod hyn fel arfer yn ofynnol ar gyfer prynu adeiladau neu eu hadnewyddu.

Mae ffotograffau sy'n dangos golwg mewnol ac allanol y cyfleuster yn ddefnyddiol yn ystod yr asesiad a dylid eu cyflwyno'n electronig (os ydynt ar gael).

Byddwn yn ceisio cofrestru arwystl cyfreithiol ar unrhyw gyfleuster a ariennir gan y Rhaglen sy'n eiddo i'r ymgeisydd. Mae'r tâl hwn yn ein galluogi i adennill cyllid os oes materion difrifol lle nad yw'r cyllid yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd. Gallwch ofyn i'r tâl gael ei ddileu 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith a ariennir gan grant.

Rhaid caffael yn briodol unrhyw waith sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni prosiect a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod yr holl ymarferion caffael yn deg, yn agored ac yn cael eu cynnal mewn modd sy'n foesegol, yn gynaliadwy, yn atebol ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau gweithdrefnol, cyfreithiol a rhyngwladol.

Bydd angen tystiolaeth o'r broses gaffael wrth arfarnu cais llawn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro darpariaeth pob cais llwyddiannus o dan y grant VAWDASV fel rhan o'r broses hawlio ariannol.

Efallai yr hoffech ystyried a chynnwys awgrymiadau prosiect amgen naill ai ar raddfeydd ariannol amrywiol, neu opsiynau eraill. Er enghraifft, "pe baem yn derbyn swm x, byddem yn gallu cyflawni y, neu pe na bai'r swm hwn ar gael, ond roedd 50%, yna byddem yn gallu cyflawni z”.

Enghraifft 1: Mae angen £50k arnom i adnewyddu 20 fflat sy'n gofyn am waith paentio a dodrefn newydd. Fodd bynnag, os nad yw hyn ar gael, gallwn adnewyddu 1 fflat ar gost o 2.5k yr uned.

Enghraifft 2: Mae angen 5 drws diogelwch tân arnom ar werth £25k, ond mae angen 2 ddrws diogelwch tân arnom ar fwy o frysg mewn mannau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac hebddynt ni fydd y mannau hyn yn ddiogel i'w defnyddio mwyach. Bydd hyn yn costio £10k.

Dylech wybod nad yw gwyriad o'ch cynnig gwreiddiol yn ystod y flwyddyn ariannol yn debygol o gael ei gytuno.

**Dogfennau ategol**

Rhaid cyflwyno pob cais gyda chyfrifon blynyddol diweddaraf yr ymgeisydd pan fo'r rhain ar gael. Rydym yn cydnabod efallai na fydd gan rai sefydliadau newydd yr wybodaeth hon eto. Yn yr achosion hyn, dylai ceisiadau gynnwys rhagamcanion ariannol.

Rhaid i'r ddau fath o geisiadau ddarparu copïau o ddyfynbrisiau ar gyfer y gweithgaredd/eitem:-

- Prosiectau/eitemau llai na £5,000 – un dyfynbris
- Prosiectau a/neu eitemau rhwng £5,000 a £25,000 – 3 dyfynbris gan 3 gwahanol gyflenwr
- Prosiectau dros £25,000 – Copi o bolisi caffael y sefydliad a chadarnhad bod y polisi hwn wedi'i ddilyn

**Sylwer: Bydd methu â darparu tystiolaeth o'r dyfynbrisiau / polisi caffael y sefydliad yn arwain at wrthod ceisiadau.**

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n llawn i'r CSJ.Cyllid@llyw.cymru erbyn **11.59pm** ar **15 Tachwedd 2024** . Ni allwn dderbyn ceisiadau hwyr.

**Asesu'r cynigion**

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn asesu ceisiadau i wirio bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu (**ni fyddwn yn derbyn ceisiadau anghyflawn**).

Ni fydd sicrhau'r isafswm sgôr ar gyfer ceisiadau yn gwarantu y bydd grant yn cael ei ddyfarnu. Y ceisiadau â'r sgôr uchaf fydd yn cael eu hariannu yn gyntaf, a fydd hefyd yn seiliedig ar adborth rhanbarthol, a bydd nifer y ceisiadau sy'n denu cyllid yn dibynnu ar faint o arian sydd ar gael a nifer y ceisiadau da a dderbynnir.

Bydd angen anfon eich ceisiadau at eich cynghorwyr VAWDASV rhanbarthol a fydd yn blaenoriaethu prosiectau yn nhrefn yr angen. Yna bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn sgorio'r prosiectau yn erbyn y meini prawf canlynol i benderfynu a ydynt yn cyd-fynd â nodau grant cyfalaf VAWDASV:

Efallai na fydd digon o gyllid i ariannu pob prosiect sy'n bodloni'r meini prawf. Os cyflwynir mwy o brosiectau cymwys na'r cyllid sydd ar gael, y rhai sy'n bodloni'r meini prawf orau fydd yn cael eu hariannu.

**Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meysydd blaenoriaeth canlynol:**

| Maes i'w asesu | Blaenoriaeth (1 – blaenoriaeth uchaf) |
|---|---|
| **Gwybodaeth am eich prosiect** | **4** |
| **Tystiolaeth o angen** | **4** |
| **Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru** | **3** |
| **Diwallu anghenion pob grŵp o bobl** | **1** |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **5** |
| **Cyflwyno'r prosiect** | **2** |
| **Costau'r prosiect/gwerth am arian** | **3** |
| **Llywodraethu** | **5** |

Bydd ceisiadau'n cael eu trafod gyda cynghorwyr VAWDASV rhanbarthol a bydd panel o swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch y prosiectau sydd i'w hariannu.

**Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):**

Mae deddfwriaeth diogelu data newydd, y GDPR, wedi'i chyflwyno. O ganlyniad, mae Hysbysiad Preifatrwydd newydd ynghylch Grantiau wedi'i gyhoeddi i'w gwneud yn haws ichi ddod i wybod sut yr ydym yn defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth o fewn Llywodraeth Cymru, pan fyddwch yn holi neu'n gwneud cais am gyllid. Ni fyddwn yn newid y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, ond bydd yr hysbysiad yn rhoi manylion ychwanegol ichi, fel:

- Eich hawliau cynyddol mewn perthynas â'r wybodaeth a gadwn amdanoch
- Y sail gyfreithiol dros y modd y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd Grantiau yn gymwys i unrhyw grantiau neu gyllid yr ydym yn eu darparu ichi.

**Ble mae cael rhagor o wybodaeth**

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Grantiau yn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i gydymffurfio â chyfraith a rheoliadau preifatrwydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o help arnoch, cysylltwch â ni yma: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae Atodiad A (isod) yn cynnwys rhestr o gwestiynau cyffredin a allai fod yn ddefnyddiol ichi wrth gwblhau eich cais.

Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer cyflwyno gyda cheisiadau.

# Atodiad A - Cwestiynau Cyffredin

**C1. Beth yw lleiafswm/uchafswm y grant sydd ar gael o dan y Grant VAWDASV?**

Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel:

- Grantiau bach hyd at £50,000
- Grantiau mwy gwerth hyd at £350,000, isafswm o £50,001.

**C2. Beth yw'r broses ymgeisio?**

- Mae dau fath o gais ar gael; ceisiadau am grantiau bach gwerth hyd at £50,000 a cheisiadau llawn am grantiau mwy gwerth hyd at £350,000

- Mae ceisiadau'n gais ysgrifenedig ffurfiol lle gofynnir i sefydliadau nodi manylion a gwybodaeth am eu gweithgaredd arfaethedig gan gynnwys eu hamcanion a'u gofynion o ran y cyllid grant.

**C3. A allaf gael help i gwblhau fy nghais?**

Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn aml yn gallu darparu cyngor ariannol. Er na allant warantu cymorth datblygiadol i bob ymgeisydd, byddant yn darparu cymaint o help ag y mae amser ac adnoddau yn ei ganiatáu.

Gallwch ddod o hyd i'ch Cyngor Gwirfoddol Lleol drwy edrych ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yma:
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltwch-a-ni/

**C4. Beth sy'n gallu cael ei ariannu?**

Mae grantiau cyfalaf ar gael ar gyfer y mathau canlynol o brosiectau:-

1. ***Prynu iddo***
    - Caffael ased cynaliadwy i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a fydd yn darparu budd am fwy na 5–10 mlynedd.

2. ***Prosiectau adnewyddu***
    - Gwaith adnewyddu ac addasu i sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol, yn hygyrch i bawb ac yn diwallu anghenion y boblogaeth.
    - Gwaith adnewyddu i loches bresennol a gwaith uwchraddio i ddarpariaeth symud ymlaen.
    - Gwaith adnewyddu i swyddfeydd a ddefnyddir gan ddefnyddwyr gwasanaeth

3. ***Prosiectau gwella gwasanaethau***

- Gwelliannau i wasanaethau i weithio gyda phlant a phobl ifanc, fel dioddefwyr a'r rhai sy'n ymddwyn mewn ffordd niweidiol.
- Gwasanaethau 'siop un stop' (mynd i'r afael ag achosion o gyflawni trais a chefnogi dioddefwyr)

4. ***Prosiectau diogelwch dioddefwyr***

5. ***Gwella ac uwchraddio offer a mannau i ddefnyddwyr gwasanaeth***
    - Gwella mynediad a mannau i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn darparu mynediad cyfartal.
    - Offer digidol a TG os ydynt yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth.

Ystyr **cyfalaf** yw prynu asedau, gwaith corfforol, a ffioedd proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith corfforol (gan gynnwys treth ar werth na ellir ei hadfer).

Mae prynu offer yn gymwys pan fo prosiect yn cynnwys gosod cyfleuster newydd fel cegin neu ystafell TG. **Ni** fyddwn yn talu'r costau ar gyfer offer swyddfa arbenigol, megis cadeiriau, llygoden ac ati.

**DS:** Gellir cynnwys ffioedd prisio annibynnol a ffioedd pensaer fel cost gyfalaf gymwys cyn belled â'u bod yn rhan o weithgarwch angenrheidiol y prosiect cyfalaf.

Dylid codi unrhyw geisiadau posibl am gyllid sydd y tu allan i'r rhestr hon (ac eithrio'r categorïau na fyddwn yn eu hariannu - isod) gyda Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno cais.

**C5. Beth na ellir ei ariannu o dan grant cyfalaf VAWDASV?**

Ni fyddwn yn ariannu gwariant refeniw fel:

- Costau staff a chostau gweithredu eraill
- Ffioedd proffesiynol fel ffioedd cyfreithwyr
- Ffioedd, er enghraifft y gofrestrfa tir, cynllunio
- Lesoedd
- Eitemau y bernir eu bod yn gyfrifoldeb cyflogwyr megis cadeiriau swyddfa arbenigol, datblygu cynllun busnes, astudiaeth ddichonoldeb; prosiect dylunio yn unig.
- Deunyddiau hyrwyddo neu hysbysebu fel beiros, posteri, bandiau arddwrn.
- Prynu dodrefn ac offer bach oherwydd traul bob dydd arferol.
- Costau postio, pecynnu, llongau a cherbyd
- TAW ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW (dylid datgan statws cofrestru TAW yn y cais)

Ni fydd y grant VAWDASV yn ystyried ceisiadau ôl-weithredol, hy lle mae gwaith wedi'i ddechrau cyn i gyllid gael ei ddyfarnu drwy lythyr cynnig grant.

**C6. Sut y caiff y taliadau eu gwneud?**

Gwneir taliadau mewn ôl-ddyledion, oni bai bod sefydliad trydydd sector yn gofyn fel arall, ar gynhyrchu pob anfoneb ynghyd â thystiolaeth angenrheidiol.

**Rhaid** mynd i'r holl wariant erbyn 31 Mawrth 2026. **Ni fydd pryniannau a wneir ar ôl 31 Mawrth 2026 yn gymwys am ad-daliad.** Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn anfonebau sydd wedi eu dyddio ar ôl 31 Mawrth 2026, ar yr amod bod y pryniannau wedi'u gwneud cyn 1 Ebrill 2026. Ni roddir taliad am unrhyw bryniant a wneir y tu allan i flwyddyn ariannol 2025-26.

**C7. A allaf wneud cais am daliad ymlaen llaw?**

Dim ond sefydliadau'r trydydd sector all wneud cais am daliad ymlaen llaw. Nid oes sicrwydd y bydd hyn yn cael ei roi gan fod yn rhaid i'r sefydliad fodloni meini prawf anghenion ariannol Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno cael eich ystyried am daliad ymlaen llaw, rhaid i chi ein hysbysu ar y ffurflen gais. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd swyddogion mewn cysylltiad i ddechrau'r broses o asesu angen ariannol.

**C8. Pryd byddaf yn gwybod canlyniad fy nghais?**

Byddwn yn cydnabod derbyn ceisiadau o fewn 48 awr (yn ystod oriau busnes). Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad ceisiadau llawn cyn gynted â phosibl.

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, defnyddiwch y mewnflwch CSJ.Cyllid@llyw.cymru

**Atodiad B - Rhestr wirio ar gyfer cyflwyno Ceisiadau**

Er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniad mewn modd amserol, bydd angen ichi ddarparu'r dogfennau canlynol gyda'ch cais:

| **Y dogfennau y mae eu hangen ar gyfer y broses asesu** | **Cadarnhewch eich bod wedi cynnwys y dogfennau**<br><br>**Do / Naddo** |
|---|---|
| Ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn ar gyfer grantiau bach o dan £50,000<br><br>Neu<br><br>Ffurflen gais lawn wedi'i chwblhau'n llawn ar gyfer grantiau mwy gwerth hyd at £350,000, isafswm o £50,001. | |
| Dogfennaeth ychwanegol fel Cyfrifon Archwiliedig neu Gynllun Busnes diweddaraf eich sefydliad | |
| Dyfynbrisiau<br><br>Ar gyfer prosiectau gwerth llai na £5,000 - bydd angen un dyfynbris gan gyflenwr gyda'r cais.<br><br>Ar gyfer prosiectau neu eitemau sy'n werth rhwng £5,000 a £25,000 - bydd angen tri dyfynbris gan wahanol gyflenwyr gyda'r cais, ee ar gyfer prosiect gwerth cyfanswm o £24,000 ac mae un eitem neu ragor yn costio £5,500 yr un, byddai angen tri dyfynbris arnom ar gyfer pob un o'r eitemau hyn.<br><br>Dros £25,000 - bydd angen cadarnhad o broses gaffael yr ymgeisydd ar gyfer pryniannau cwmni dros £25,000 gyda'r cais - bydd angen i hyn gael ei gymeradwyo gan dîm gweithrediadau ariannol Llywodraeth Cymru.<br><br>**Rhaid i bob dyfynbris fod yn ysgrifenedig a chynnwys adnabyddiaeth fasnachol cyflenwyr, ee papur â phennawd, dyfynbris gyda logo'r cwmni.**<br><br>**Bydd methu â chyflwyno dyfynbrisiau/prisiadau yn golygu bod y cais yn annilys** | |

Anfonwch gais wedi'i gwblhau a dogfennau ychwanegol yn electronig i CTP.Cyllid@llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau cyfalaf yw 11.59pm ar 15 Tachwedd 2024  Mae copïau electronig wedi'u llofnodi o'r cais yn ddigonol, nid oes angen copïau caled.**